Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Effaith gostyngiadau gwariant y Deyrnas Unedig ar Gymru

**Hysbysiad Hwylus** **Mai 2010**

## Trosolwg

Ar 24 Mai 2010, cyhoeddodd y Canghellor (George Osborne) a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys (David Laws) fanylion am sut mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu lleihau ei gwariant o **£6.2 biliwn** yn ystod 2010-11.[1] Ceir rhagor o fanylion yma am yr effaith bosibl ar gyllideb Cymru. Yn gryno:

- Mae gostyngiadau gros i adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn £6.2 biliwn, i gael ei wrthbwyso gan ailfuddsoddiad o £500 miliwn, sy'n rhoi **gostyngiad net o £5.7 biliwn**.
- Bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn gorfod ysgwyddo'r baich am **£704 miliwn** o'r swm o £6.2 biliwn.

O hyn, mae gostyngiadau gros o £187 miliwn i Gymru, a gaiff eu gwrthbwyso gan ailfuddsoddiad o £24 miliwn, sy'n rhoi **gostyngiad net o £163 miliwn**. Mae hyn yn cynrychioli **1 y cant** o gyllideb Cymru, sef £15.7 biliwn.[2]

## Effaith y newidiadau ar gyllideb Cymru

Gellir gweld y newidiadau i gyllideb Cymru, oherwydd y gostyngiadau a gyhoeddwyd, yn nhabl 1. Mewn achosion lle mae gan Gymru gyfrifoldebau sydd wedi'u datganoli o unrhyw adran o Lywodraeth y Deyrnas Unedig, mae Cymru'n derbyn ei chyfran o unrhyw newidiadau drwy fformiwla Barnett, sy'n seiliedig ar boblogaeth a chymaroldeb.[3] Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth lwyr o sut y rheolir y newidiadau hyn yng nghyllideb Cymru.

Gan fod cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2010-11 eisoes wedi ei phasio,[4] mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cynnig gohirio'r gostyngiadau gwariant nes 2011-12. Mae Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon hefyd wedi cael y cynnig i ohirio'r gostyngiadau hyn.

[1] Trysorlys Ei Mawrhydi, ***Reducing the Government deficit***, 24 Mai 2010. [ar 25 Mai 2010]
[2] Mae hyn yn cyfeirio at derfynau gwariant adrannol (DEL) yn unig, gan mai hwn yw'r maes y mae gan Weinidogion Cymru ryddid i weithredu yn ei gylch.
[3] Yn unol â datganiad polisi cyllido Trysorlys Ei Mawrhydi: ***Statement of Funding Policy***. Ceir rhagor wybodaeth am sut mae fformiwla Barnett yn gweithio yn Hysbysiad Hwylus Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau: ***Fformiwla Barnett*** (Saesneg yn unig) [ar 25 Mai 2010]
[4] Llywodraeth Cymru, ***Cyllideb Derfynol 2009***, Rhagfyr 2009 [ar 25 Mai 2010]

**Tabl 1: Cyfradd Cymru o newidiadau i Gyllideb 2010-11**

*£ miliynau*

| Adran | Cyfraniadau Adrannol y Deyrnas Unedig 2010-11 | Effaith ar floc Cymru |
|---|---|---|
| **Gostyngiadau** | | |
| Addysg | 670 | 39 |
| Trafnidiaeth | 683 | 27 |
| Cymunedau a Llywodraeth Leol | 780 | 45 |
| Llywodraeth Leol | 405 | 24 |
| Busnes, Arloesedd a Sgiliau | 836 | 37 |
| Y Swyddfa Gartref | 367 | 0 |
| Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | 325 | 0 |
| Adrannau Swyddogion y Gyfraith | 18 | 0 |
| Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad | 55 | 0 |
| Ynni a Newid Hinsawdd | 85 | 2 |
| Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig | 162 | 8 |
| Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon | 88 | 5 |
| Gwaith a Phensiynau | 535 | 0 |
| Adrannau'r Canghellor[1] | 451 | 0 |
| Swyddfa'r Cabinet | 79 | 0 |
| Y Gweinyddiaethau Datganoledig | 704 | .. |
| **Cyfanswm y gostyngiadau** | **6,243** | **187** |
| **Ychwanegiadau[2]** | | |
| Colegau Addysg Bellach | 50 | 3 |
| Prentisiaeth mewn BBaCh | 150 | 9 |
| Tai Cymdeithasol | 170 | 10 |
| Cyfraddau Busnes[3] | 50 | 3 |
| **Cyfanswm yr ychwanegiadau** | **420** | **24** |
| **Gostyngiad net** | **5,823** | **163** |

**Ffynhonnell:** Trysorlys Ei Mawrhydi a chyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

1. Mae'r adrannau hyn yn cynnwys arbedion o £320 miliwn mewn gwariant a reolir yn flynyddol, drwy leihau'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant. Wrth gyfrifo'r symiau canlyniadol i Gymru, anwybyddwyd hyn, ac mae'r effaith ar gyllideb Cymru yn seiliedig ar y £131 miliwn sy'n weddill.

2. Cyfrifwyd yr ychwanegiadau yn unol â'r Adroddiad Cyllidebol a'r Adroddiad Rhag-gyllidebol, hynny yw, gan ddefnyddio cymaroldeb o 100%.

3. Pe bai Llywodraeth Cymru'n penderfynu defnyddio'r un dull a Lloegr ynghylch cyfraddau busnes, ni fyddai unrhyw symiau canlyniadol oherwydd y newid hwn. Fodd bynnag, pe bai'n penderfynu peidio â gwneud hynny, byddai ychwanegiad i floc grant Cymru.

Mae .. yn dynodi nad oes data'n berthnasol

Mae'r gostyngiad i'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn cynnwys cyfrifoldeb dros arbedion o £27 miliwn gan Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd. Ymddengys na chafodd hyn ei ystyried wrth gyfrifo'r gostyngiad canlyniadol i Gymru. Yn ei datganiad ar 25 Mai, nododd Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb:

> ...we seem to have been given a consequential of cuts in the Olympics budget. As Members will be very well aware, Wales did not receive consequentials from the Olympics budget when it was established in the last CSR. Clearly we should not be subject to cuts from budgets we didn't receive in the first place.[5]

Aeth y Gweinidog ymlaen i nodi ei bod yn bwriadu trafod y mater ymhellach gyda'r Trysorlys.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Ymatebodd Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb i'r cyhoeddiad am y gostyngiadau ar 24 Mai fel a ganlyn:[6]

> Mae'r toriadau hyn er gwaethaf y ffaith bod Comisiwn Holtham wedi dangos bod rhyw £300m y flwyddyn o danariannu eisoes yn bodoli yng Nghymru. Felly, byddai'n hollol amhriodol i Gymru ddioddef toriadau mawr o fewn y flwyddyn. Beth bynnag fo'r sefyllfa yn Lloegr, mae lefel ein tanariannu presennol yn golygu ei bod hi'n amhosibl i ni dorri £187m oddi ar gyllideb eleni heb effeithio ar

[5] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, *Datganiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar doriadau gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig*, Datganiad Llafar gan y Cabinet, 25 Mai 2010 [dim linc ar gael ar hyn o bryd]

[6] Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cymru, ***Datganiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar doriadau gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig***, 24 Mai 2010 [ar 25 Mai 2010]

> wasanaethau rheng flaen. Rydym eisoes yn eithaf effeithiol o gymharu â Whitehall – er enghraifft bu Cymru ar flaen y gad unwaith eto yn y DU pan aeth ati i gael gwared ar gwangos Cymreig mawr. Felly, yn syml, nid yw'r cyfle i wneud toriadau i wasanaethau 'cefn swyddfa' Cymru yr un fath ag yw yn Lloegr.

Mewn ymateb i'r cynnig i ohirio'r gostyngiadau, mae'r Gweinidog yn datgan:

> ... mae'n rhaid i ni gael mwy o eglurdeb ynghylch o dan ba delerau y gallai fod modd i ni ohirio unrhyw doriadau. Yr wyf wedi bod yn dilyn trywydd y mater hwn ar frys gyda Gweinidogion y Trysorlys ac rwy'n parhau i wneud hynny. Yn y cyfamser, ni fyddwn yn cymryd unrhyw gamau brys i dorri cyllidebau yng Nghymru.

Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu derbyn cynnig y Trysorlys i ohirio'r gostyngiadau nes 2011-12.[7]

## Camau pellach

Mae'r Canghellor wedi cadarnhau y bydd Cyllideb frys yn cael ei chyhoeddi ddydd Mawrth 22 Mehefin.

Cyhoeddodd hefyd y bydd **swyddfa gyda chyfrifoldeb dros y gyllideb** yn cael ei chreu i asesu cyllid cyhoeddus a'r economi ar gyfer cyllideb o'r fath.8 Mae'r Trysorlys hefyd yn cynnal Adolygiad Gwariant a bydd yn cyhoeddi adroddiad arno yn yr hydref.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am effaith gostyngiadau gwariant y Deyrnas Unedig ar Gymru, cysylltwch â **Dr Eleanor Roy** (**Eleanor.Roy@wales.gov.uk**) yng Ngwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

- I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau isod, cliciwch ar y linc:
- Trysorlys Ei Mawrhydi, **Reducing the Government deficit** (Mai 2010)
- Trysorlys Ei Mawrhydi, **Funding the Scottish Parliament, National Assembly for Wales and Northern Ireland Assembly: Statement of Funding Policy** (Hydref 2007)
- Hysbysiad hwylus Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau am **fformiwla Barnett**, neu am fanylion pellach, gweler y papur ymchwil: **Fformiwla Barnett: cyllido'r gweinyddiaethau datganoledig**.

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Ymholiad rhif: 10/1527** **Eleanor Roy**

[7] Datganiad i'r wasg gan Lywodraeth yr Alban, ***Public spending cuts***, 24 Mai 2010 [ar 25 Mai 2010]
[8] Trysorlys Ei Mawrhydi, ***Press Notice 03/10: Chancellor announces date of emergency Budget***, 17 Mai 2010 [ar 25 Mai 2010]